# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Tachwedd 2002 i'w hateb ar 3 Rhagfyr 2002

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog y Cynulliad*

**1. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y pwyllgorau pwnc yn llwyr ymwybodol o ddatblygiadau ar lefel llywodraeth yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n effeithio ar eu gwaith a'u penderfyniadau. (OAQ20721) **TYNNWYD YN ÔL**

**2. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar drafodaethau y mae wedi eu cael yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch trosglwyddo mwy o swyddogaethau o San Steffan i'r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ20749)

**3. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Faint o arian gafodd ei wario gan Llywodraeth y Cynulliad ar ymgynghorwyr ys ystod y flwyddyn. (OAQ20724) **W**

**4. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyllido'r cynllun tocynnau bws am ddim yng Nghymru. (OAQ20714)

**5. Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd ynghylch cyllido gofal iechyd yng Nghaerfyrddin. (OAQ20716)

**6. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Ym mha ffyrdd y mae llywodraeth y Prif Weinidog yn integreiddio anghenion economaidd Cymru gyda'i hanghenion addysgol. (OAQ20728)

**7. David Ian Jones (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y trefniadau a wnaed gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru i ddelio â digwyddiad terfysgol mawr yng Nghymru. (OAQ20725)

**8. Geraint Davies (Rhondda);** Beth mae'r Prif Weinidog yn ei wneud i sicrhau y rhoddir y cymorth economaidd mwyaf i'r cymunedau sydd ei angen. (OAQ20748)

**9. Brian Gibbons (Aberafan);** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar denantiaid gwrth-

gymdeithasol. (OAQ20723)

**10. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau ei gabinet hyd at Etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2003. (OAQ20747)

**11. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau ei weinyddiaeth ar Ofal Iechyd. (OAQ20742)

**12. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwella gwasanaethau trafnidaeth gyhoeddus yn Sir Benfro. (OAQ20729)

**13. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y manteision o gadw cymal olaf Pencampwriaethau Rali'r Byd yng Nghymru. (OAQ20718)

**14. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Fesur y GIG (Cymru). (OAQ20712)

**15. Janice Gregory (Ogwr);** Pa adnoddau ychwanegol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu rhoi i'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru. (OAQ20730)